# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Mehefin 2025

Amser: 13.30 - 14.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15133

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(6)615 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

### 2.2 SL(6)616 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)493 – Rheoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 3.2 SL(6)608 – Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r cyfarfodydd a ganlyn: y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol; Cyngor y Gwledydd a’r Rhanbarthau; y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach; a chyfarfod Gweinidogol Amgylchedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

### 4.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 3) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Adroddiad Llywodraeth Cymru ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2024-25

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

### 5.2 Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Uwchgynhadledd yr UE a'r DU

Nododd y Pwyllgor y Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

### 5.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Busnes: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Busnes.

### 5.4 Cyflwyniad ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i graffu ar gytuniadau

Nododd y Pwyllgor ei gyflwyniad ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i graffu ar gytuniadau.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ystod ei gyfarfod nesaf. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu a Phlismona

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu a Phlismona a chytunodd ar ei adroddiad drafft.

## 9 Cytundebau Rhyngwladol

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 10 Blaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.